

## **Bwletin Awdurdod S4C - Mis Rhagfyr 2004**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2004.

### **Telerau Masnach**

Mynegodd Aelodau'r Awdurdod eu boddhad wrth ddysgu bod S4C wedi dod i gytundeb gyda TAC parthed y Telerau Masnach ar 2 Rhagfyr.

### **Adolygiad Gwasanaeth Darlledu Cyhoeddus Ofcom**

Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth bellach parthed y gwaith oedd yn mynd yn ei flaen wrth baratoi ymateb S4C i Cyfnod 2 yr adolygiad gan Ofcom.

### **Adolygiad Siartr y BBC**

Trafododd yr Aelodau gynnwys llythyr oedd wedi'u derbyn oddi wrth y BBC parthed Adolygiad Siartr y BBC a phosibiliadau ar gyfer newid yn y berthynas rhyngddynt hwy a S4C yn y dyfodol.

### **Cynllun Corfforaethol 2005-07**

Ystyriwyd fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Corfforaethol a ymgeisiodd adlewyrchu sylwadau'r Aelodau yn y cyfarfod diwethaf. Ar yr amod bod y sylwadau pellach a wnaethpwyd yn y cyfarfod hwn yn cael eu hymgorffori, rhoddodd yr Awdurdod ei sêl bendith ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2005-07.

### **Datganiad Polisi Rhaglenni**

Yn sgil Deddf Gyfathrebu 2003, yr oedd yna ofyniad statudol ar S4C i gyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni. Yn amodol ar fodlonrwydd yr Aelodau gyda'r hyn gerbron, roedd hi'n fwriad i yrru'r testun at Ofcom ar gyfer sylwadau. Y nod yna oedd i gyhoeddi'r Datganiad ym mis Chwefror. Roedd yr Aelodau o'r farn bod cynnwys ac arddull yr hyn a gyflwynwyd yn dderbyniol iawn a dylid rhoi sêl bendith yr Awdurdod arno.

## **Trafodaeth ar Ddarlledu gyda Ron Jones, Cadeirydd Tinopolis**

Gan barhau yr ymarferiad diweddar o wahodd gwahanol bobl i gyfarfodydd yr Awdurdod i drafod y byd darlledu, mynychodd Ron Jones i fynegi y ffordd yr oedd ef yn gweld y dyfodol a'i farn ar y datblygiadau diweddar o ran adolygiad Ofcom, ac ati

### **Materion Eraill**

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Datblygiadau yn y Byd Darlledu – Sefyllfa ddiweddaraf
- Gweithgareddau Masnachol S4C
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 3 Rhagfyr 2004
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol